# RHESTR CYMWYSTERAU BLAENORIAETHOL

Mae hon yn rhestr o'r cymwysterau rydym wedi cyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar eu cyfer, neu yr ystyrir eu cymeradwyo.

MEHEFIN 2020

## CYMWYSTERAU CYMRU

## RHESTR CYMWYSTERAU BLAENORIAETH A RHAGOLWG

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth, a baratoir ar y cyd gan Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cynnwys Rhagolwg Cymwysterau Cymru.

Caiff y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddaru yn ôl yr angen i gynnwys cymwysterau y mae meini prawf cymeradwyo newydd ar eu cyfer a/neu gyfyngiadau wedi'u gosod arnynt (neu sydd dan ystyriaeth am gyfyngiad), ac i adlewyrchu diwedd unrhyw gyfnodau cymeradwyo blaenoriaeth. Bydd y cymwysterau hynny y daeth eu cyfnod cymeradwyo blaenoriaeth i ben yn cael eu symud at yr adran o'r ddogfen hon lle mae cymwysterau anghyfyngedig â chyfnodau cymeradwyo blaenoriaeth a ddaeth i ben.

Caiff y Rhagolwg ei adolygu'n rheolaidd hefyd gan Cymwysterau Cymru i sicrhau ei fod yn dal i roi gwybod i gyrff dyfarnu am flaenoriaethau posibl y dyfodol. Cyhoeddir y Rhagolwg islaw'r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth ond nid yw'n rhan ohoni.

## RHESTR CYMWYSTERAU BLAENORIAETH

Mae Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru wedi paratoi'r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth wrth arfer eu pwerau o dan adran 13 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dyletswydd i baratoi rhestr o gymwysterau blaenoriaeth).

Caiff Cymwysterau Cymru gymeradwyo cymwysterau a gynlluniwyd i fodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru. Rhestr yw'r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth o'r cymwysterau y mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar eu cyfer, neu gymwysterau sydd dan ystyriaeth am gyfyngiad ac o ran y rheini mae'n rhaid iddo, o dan adran 18 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, ystyried unrhyw geisiadau am gymeradwyaeth gan gyrff dyfarnu a gydnabyddir yn briodol. Ni chaiff cymwysterau ar y rhestr hon eu cymeradwyo heblaw eu bod yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo a gyhoeddwyd. Nid yw statws cymeradwy yn arwydd o bwysigrwydd perthynol cymhwyster.

Bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried i'w cymeradwyo gymwysterau nad ydynt ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth os oes meini prawf cymeradwyo wedi'u cyhoeddi. Fodd bynnag, rhoddir mwy o flaenoriaeth i gymeradwyo cymwysterau sydd ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth.

Caiff Cymwysterau Cymru hefyd ddynodi cymwysterau. Darperir cymwysterau cymeradwy a dynodedig gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig ac maent yn gymwys i'w

defnyddio ar raglenni addysg a hyfforddiant a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed. Nid yw cymwysterau dynodedig yn unigryw i Gymru o reidrwydd ac maent fel arfer ar gael i ddysgwyr yng ngwledydd eraill y DU. Bydd Cymwysterau Cymru yn gweithio gyda chyrff cydnabyddedig mewn perthynas â cheisiadau i ddynodi cymwysterau nad ydynt ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth.

Mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi **polisi'r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth**, sy'n ymhelaethu ar y ffordd y rheolir y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth.

**Cymwysterau blaenoriaeth dan gyfyngiad**
Caiff Cymwysterau Cymru roi cyfyngiad ar nifer y mathau o gymhwyster gaiff eu cymeradwyo ar unrhyw adeg. Mae'r adran hon yn cynnwys dwy ran. Mae Rhan 1 yn berthnasol i'r cymwysterau hynny lle mae gan Cymwysterau Cymru fwriad i gyfyngu. Ystyrir sylwadau mewn ymateb i'r hysbysiad i gyfyngu cyn cyhoeddi unrhyw benderfyniad i gyfyngu. Nodir penderfyniadau i gyfyngu yn Rhan 2.

***Rhan 1 – Bwriadau i gyfyngu***

Dim i ddod

***Rhan 2 – Penderfyniadau i gyfyngu***

Mae Cymwysterau Cymru wedi cyfyngu ar y disgrifiadau canlynol o gymwysterau i **un math yr un**:

Gwasanaethau Adeiladu ac Adeiladwaith
Cymhwyster craidd mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (Lefel 2)
Cymhwyster sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (Lefel 2)
Cymhwyster dilyniant mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)
Cymhwyster dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2)
Cymhwyster mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 3)
Adeiladu (Lefel 3)

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Dyfarniad Sengl)
TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Dyfarniad Dwbl)[1]
Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
TAG Safon Uwch ac UG mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
Lefel 5 Arwain a Rheoli ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol:
Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.
Lefel 4 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer Proffesiynol
Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Lefel 4 Eiriolaeth
Lefel 4 Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau
Lefel 4 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer Proffesiynol

**Cymwysterau anghyfyngedig gyda chymeradwyaeth blaenoriaeth gyfredol**

| **TGAU** | **Safon UG a Safon Uwch** |
|---|---|
| Technoleg Ddigidol | Yr Amgylchedd Adeiledig |
| | Technoleg Ddigidol |

**Cymwysterau anghyfyngedig gyda chymeradwyaeth blaenoriaeth a ddaeth i ben**

Mae'r cyfnodau cymeradwyo blaenoriaeth i'r cymwysterau canlynol wedi dod i ben. Mae gan y cymwysterau hyn feini prawf cymeradwyo cyfredol o hyd a gellir ystyried unrhyw gymwysterau a gyflwynir yn erbyn y meini prawf hynny i'w cymeradwyo.

| **TGAU** | **Safon UG a Safon Uwch** |
|---|---|
| Saesneg | Saesneg |
| Cymraeg | Cymraeg |
| Llenyddiaeth Saesneg | Llenyddiaeth Saesneg |
| Llenyddiaeth Gymraeg | Llenyddiaeth Gymraeg |
| Mathemateg | Mathemateg |
| Mathemateg - Rhifedd | Mathemateg Bellach |
| Bioleg | Bioleg |
| Cemeg | Cemeg |
| Ffiseg | Ffiseg |

Gwyddoniaeth (Dwyradd)
Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol)
Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dwyradd)
Daearyddiaeth
Ffrangeg
Almaeneg
Sbaeneg
Cerddoriaeth
Cyfres gwyddoniaeth
Drama
Addysg Gorfforol
Hanes
Bwyd a Maeth
Astudiaethau Crefyddol
Celf a dylunio
Busnes
Cyfrifiadureg
Dylunio a Thechnoleg
Astudio'r Cyfryngau
Cymraeg (Ail Iaith)
Yr Amgylchedd Adeiledig

Cymraeg (Ail Iaith)

Drama
Cerddoriaeth
Addysg Gorfforol
Daearyddiaeth
Ffrangeg
Almaeneg
Sbaeneg
Astudiaethau Crefyddol
Dylunio a Thechnoleg
Mathemateg Bellach
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
Y Gyfraith
Mathemateg
Astudio'r Cyfryngau

Lefel1/2 Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaenol/Cenedlaethol
Lefel 3 Tystysgrif Her Sgiliau Uwch

Cyfres o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (Lefel Mynediad i Lefel 3)

Cytunwyd y cymwysterau a restrir ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth ar y cyd gan Ysgrifennydd Addysg y Cabinet a Cymwysterau Cymru ac fe'u cyhoeddwyd ar 19 Mehefin 2020.

**RHAGOLWG**

Disgrifia'r Rhagolwg y cymwysterau y mae Cymwysterau Cymru'n eu hystyried i'w cynnwys ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth yn y dyfodol. Mae'r Rhagolwg yn galluogi Cymwysterau Cymru i roi gwybod i gyrff dyfarnu am flaenoriaethau'r dyfodol ac yn galluogi Cymwysterau Cymru i ddatblygu meini prawf cymeradwyo priodol.

Nid yw'r ffaith bod cymwysterau neu ddisgrifiadau o gymwysterau yn cael eu cynnwys yn y Rhagolwg yn sicrhau y byddant yn cael eu cynnwys mewn Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth yn y dyfodol. Yn yr un modd, gellid cynnwys cymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster mewn Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth yn y dyfodol heb ei fod wedi ymddangos yn gyntaf ar y Rhagolwg.

Mae rheoleiddio cymwysterau galwedigaethol yn elfen bwysig o waith Cymwysterau Cymru. Er mwyn gwneud y broses o reoleiddio cymwysterau galwedigaethol yn fwy hydrin ac effeithiol, rydym yn mabwysiadu dull sectoraidd o adolygu cymwysterau. Y sectorau nesaf yn y rhaglen adolygiadau yw Teithio, Twristiaeth, Hamdden, Lletygarwch ac Arlwyo (sydd i ddechrau yng Ngwanwyn 2020). Un o ganlyniadau'r adolygiadau hyn efallai fydd cynnwys cymwysterau ar gyfer y sectorau hyn ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth yn y dyfodol.

Mae Cymwysterau Cymru yn edrych ar sut y gallai fod angen i gymwysterau a gymerir gan bobl ifanc 16 oed yng Nghymru newid i ddiwallu anghenion dysgwyr yn y dyfodol a chefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r gwaith hwn yn debygol o arwain at beth adolygu a diwygio cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed. Mae'n debygol y cytunir ar y newidiadau penodol yn 2021 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac efallai yr ychwanegir pynciau pellach.

**Rydym yn ystyried rhestru, ar ôl datblygu meini prawf cymeradwyo:**

Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Newydd Lefel 3